

# I-GYFLOGAETH - SGILIAU AR GYFER YR OES DDIGIDOL

*"Mae sgiliau digidol yn fwyfwy pwysig o fewn yr economi, gyda llawer o rolau swydd yn tyfu'n gynyddol ddigidol."*

Mae Coleg Ceredigion yn lansio cwrs rhan-amser cyffrous newydd i'ch helpu i feithrin hyder ac i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnoch i weithio yn yr oes ddigidol fodern.

Cyflwynir y cwrs hwn sy'n rhedeg dros hanner diwrnod yr wythnos ar Gampws Aberystwyth o 28 Chwefror 2018 i 4 Gorffennaf 2018.

Bydd yn rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd angen arnoch i weithio yn, i ddychwelyd at y gweithle digidol modern neu i symud ymlaen. Cewch ddarganfod sut mae technolegau digidol yn creu cyfleoedd gyrfaol newydd ac yn siapio'r byd yr ydym yn byw ynddo.

Gan ddefnyddio technoleg safonol y diwydiant, dylunnir y cwrs i roi'r sgiliau hanfodol i chi ar gyfer cystadlu ym marchnad gyflogaeth heriol heddiw ac mae'n cynnwys:

- Technegau cyfathrebu ar-lein
- Diogelwch cyfrifiadurol a phreifatrwydd
- Cyfleoedd gyrfa sydd ar gael i weithwyr gwybodaeth
- Ffotograffiaeth ddigidol, sylfeini sain a fideo

I sicrhau lle ar y cwrs, anfonwch ffurflen gais wedi'i llenwi i Goleg Ceredigion, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3BP, neu ffoniwch 01970 639700 am ragor o fanylion.

Hyfforddiant Am Ddim - Cofrestru: £ 9.36 \*

\* Cymorth ariannol ar gael, cysylltwch â Choleg Ceredigion am fanylion

# DATBLYGU SGILIAU MEWN GWASANAETH CWSMER A MANWERTHU

Adeiladwch eich hyder a datblygwch y sgiliau sydd eu hangen arnoch i sicrhau gwaith yn y sector gwasanaeth cwsmeriaid a manwerthu, un o'r diwydiannau mwyaf yn y DU.

Cyflwynir y cwrs newydd a chyffrous hwn ar 1 diwrnod yr wythnos ar Gampws Aberystwyth o 2il o Fawrth 2018 hyd 6ed o Orffennaf 2018.

Fe'i cynlluniwyd i roi'r sgiliau hanfodol i chi ar gyfer cystadlu ym marchnad gyflogaeth heriol heddiw. Bydd yn rhoi'r hyder, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd angen arnoch i fynd i weithio, i ddychwelyd i'r gwaith neu i symud ymlaen yn y gweithle.

Mae Coleg Ceredigion yn cydweithio â 3 o'r prif gyflogwyr lleol a gyda'n gilydd byddwn yn sicrhau eich bod yn ennill gwybodaeth a phrofiad yn:

- Gwybod yr hyn mae cyflogwyr yn chwilio amdano
- Cynhyrchu CV rhagorol
- Rheoli'r berthynas â chwsmeriaid
- Effaith bersonol a thechnegau cyfweld

I sicrhau lle ar y cwrs, anfonwch ffurflen gais wedi'i llenwi i Goleg Ceredigion, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3BP, neu ffoniwch 01970 639700 am fanylion pellach.

Ffi Cofrestru: £25.80\*

\* Cymorth ariannol ar gael, cysylltwch â Choleg Ceredigion am fanylion

NEW  
LOOK

wetherspoon

TESCO



colegceredigion